**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 17 Ebrill 2002 | |
| **Amser:** | 9.00am i 11.50am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| **Presennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| | Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Aberhonddu a Sir Faesyfed |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Lynne Neagle | Tor-faen |
| | **Yn Bresennol** | |
| | Angela Hooper | Rheolwraig Ranbarthol, Swyddfa De Ddwyrain Cymru, Chwarae Teg |
| | Ruth Marks | Prif Weithredwraig, Chwarae Teg |
| | **Swyddogion** | |
| | Chris Burdett | Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| | Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |
| | Ann Lloyd | Cyfarwyddwraig, GIG yng Nghymru |
| | Graham Williams | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| | **Ysgrifenyddiaeth:** | |
| | Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| | Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies a Rod Richards.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Jocelyn Davies i'r Pwyllgor a chofnododd ei diolch i Brian Hancock am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor yn ystod y 18 mis diwethaf. Croesawodd hefyd Peter Jones, a benodwyd yn ddiweddar fel Cwnsler i Bwyllgorau'r Cynulliad.

1.3 Atgoffwyd yr Aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Brian Gibbons, ymarferydd meddygol cofrestredig;

- Dai Lloyd, meddyg teulu ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog**
**Papur: HSS-08-02(p.1)**

2.1 Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r Aelodau, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Byddai cam cyntaf y Cynllun Gweithredu Gofal Sylfaenol yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2002, gyda'r ail gam yn dechrau ym mis Ionawr 2003. Byddai'r cynllun gweithredu yn hanfodol i ddatblygu gwasanaethau iechyd a iechyd a lles yng Nghymru a datblygwyd y terfynau amser yn unol â'r amserlen ar gyfer sefydlu Byrddau Iechyd Lleol, gan mai hwy fyddai'n gyfrifol am ei weithredu.
- Roedd y contract diwygiedig ar gyfer meddygon teulu yn cael ei ddatblygu yn ôl terfynau amser gwahanol i'r Cynllun Gweithredu Gofal Sylfaenol, ond roedd angen i'r cynllun gweithredu ystyried y darpariaethau a fyddai'n dod i'r amlwg o fewn y contract newydd.
- Mewn gweithdy diweddar y farn oedd na ddylid sefydlu model penodedig ar gyfer datblygu Canolfannau Adnoddau Gofal Sylfaenol yng Nghymru.
- Byddai gwybodaeth ar benodiadau o fewn Adran GIG Cymru yn cael ei darparu yn ystod yr adroddiad misol nesaf. Byddai hyn yn cynnwys penodi Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol.
- Byddai'r ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer cyfraddau beichiogi ymhlith merched yn eu harddegau ar gael i'r Aelodau.
- Byddai papur i'w nodi yn cael ei ddarparu ar nifer yr achosion o feichiogi ymhlith merched yn eu harddegau.
- Derbyniwyd gormod o geisiadau ar gyfer y Gronfa Anghydraddoldebau mewn Iechyd ond roedd y meini prawf ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn glir iawn. Roedd llawer o'r prosiectau bellach ar waith a byddai adroddiad interim yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. Byddai manylion y cynlluniau a gymeradwywyd yn cael eu dosbarthu. Dywedodd Dr Hall y sefydlwyd grðp ymgynghorol, yr oedd yn gadeirydd arno, i archwilio'r ceisiadau. Roedd y grðp yn awyddus i weld gwasgariad daearyddol o ran prosiectau a defnyddiwyd nifer o fynegrifau amddifadedd i nodi ardaloedd lle y disgwyliwyd anawsterau penodol. Daeth i'r amlwg nad oedd rhai grwpiau yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i lunio cais priodol am arian felly rhyddhawyd adnoddau i ddarparu help ac arweiniad i grwpiau o'r fath. Roedd rhaglen waith arwyddocaol yn weithredol i werthuso profiad y grðp ymgynghorol a byddai adroddiad interim o'r gwerthusiad hwn yn cael ei ddarparu fel adroddiad i'w nodi.
- Bu'r bartneriaeth gyda'r cyfryngau i godi ymwybyddiaeth o ganser ceilliol yn llwyddiannus iawn gan gael effaith enfawr. Fel cam dilynol, cynhyrchwyd fideos a byddent yn cael eu dosbarthu i ysgolion.
- Byddai papur ar gyngor mewn profedigaeth yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
- Cadarnhaodd Dr Hall bod plant yn un o elfennau allweddol y strategaeth maetheg ddrafft. Roedd ganddi hefyd gysylltiadau cryf â'r rhaglen anghydraddoldebau iechyd.
- Byddai gwybodaeth ar y rhaglen ar gyfer gweithredu'r fenter gofal llygaid yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad misol nesaf.
- Byddai manylion aelodau'r gweithgor ar Drais yn y Cartref a Thrais yn erbyn Merched yn cael ei

darparu yn natganiad y Gweinidog i’w cyfarfod llawn y diwrnod canlynol. Byddai ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i ba un a ddylai’r Cynulliad, fel cyflogwr, gynnig cymorth i aelodau o staff a allai fod wedi dioddef trais yn y cartref.
- Byddai manylion am sut y dyrannwyd arian gwerth £40m y Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf Cymru Gyfan yn cael eu dosbarthu.

2.2 Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch yr argyfwng parhaus ym maes gofal preswyl a’r gostyngiad yn nifer y llefydd preswyl sydd ar gael yng Nghymru.

2.3 Dywedodd y Gweinidog y sefydlwyd Grðp Strategaeth Gofal Cymru i ymdrin â hyn. Cynrychiolwyd y sector annibynnol ac roedd y grðp wrthi’n ystyried datblygu modelau gofal mwy hyblyg. Roedd amrywiad ledled Cymru yn y farchnad. O ganlyniad i ymagweddau gwahanol y 22 awdurdod iechyd cafwyd patrwm cymysg iawn yn nhermau darpariaeth, a dyrannwyd £12m o arian ychwanegol yn uniongyrchol i awdurdodau lleol i wella’r ddarpariaeth gofal.

2.4 Dywedodd Graham Williams y dylai’r ddadl yn awr ganolbwyntio ar botensial darpariaeth yn y dyfodol yn hytrach na chynnal lefelau presennol, a bod Grðp Strategaeth Gofal Cymru yn rhoi cyfle i ddechrau’r drafodaeth ynghylch patrymau gofal hyblyg mewn ffordd gyffredinol. Gellid lliniaru pwysau byr dymor gydag ychwanegiadau arian parod, ond roedd cyfle gwirioneddol bellach yn bodoli i edrych ar well ffyrdd o weithio a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

2.5 Gofynnodd y Cadeirydd i’r aelodau ystyried sut yr hoffent gael eu cadw’n hysbys am waith Grðp Strategaeth Gofal Cymru.

2.6 Gofynnodd y Cadeirydd i Peter Jones edrych ar yr amserlen ar gyfer is-ddeddfwriaeth gan nodi unrhyw feysydd o wahaniaeth arwyddocaol i Gymru neu lle roedd cyfle i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth eilaidd.

<u>Gweithredu</u>

- Cyfraddau beichiogi ymhlith merched yn eu harddegau y Swyddfa Ystadegau Gwladol i’w darparu i’r Aelodau.
- Papur i’w nodi i’w ddarparu ar nifer yr achosion o feichiogi ymhlith merched yn eu harddegau.
- Manylion y cynlluniau a gymeradwywyd o dan y Gronfa Anghydraddoldebau mewn Iechyd i gael eu dosbarthu.
- Adroddiad interim ar werthuso’r Gronfa Anghydraddoldebau mewn Iechyd i gael ei ddarparu fel papur i’w nodi.
- Papur ar gyngor mewn profedigaeth i’w baratoi ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
- Gwybodaeth ar weithredu’r fenter gofal llygaid i’w chynnwys yn y cyfarfod misol nesaf.
- Manylion o sut y dyrannwyd arian gwerth £40m y Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf Cymru Gyfan i’w dosbarthu.
- Copi o lythyr y Gweinidog at David Melding mewn perthynas ag ystadegau cartrefi nyrsio a

chartrefi gofal i'w ddosbarthu i'r Aelodau.

**Eitem 3: Chwarae Teg**
**Papur HSS-08-02(p.2)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Ruth Marks, Prif Weithredwraig Chwarae Teg ac Angela Hooper, Rheolwraig Ranbarthol Swyddfa De Ddwyrain Cymru, a wnaeth gyflwyniad byr ar ganfyddiadau cychwynnol ymchwil Dengmlwyddiant Chwarae Teg. Atodir copi o'r cyflwyniad yn Atodiad A.

3.2 Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn faes lle roedd Chwarae Teg yn awyddus i ymgymryd â gwaith pellach, ac roedd yr Is-adran Plant a Theuluoedd wedi nodi y gallai dimensiwn economaidd gofal plant fod yn brosiect priodol ar gyfer y dyfodol.
- Hyd nes y byddai'r canfyddiadau ymchwil terfynol ar gael nid oedd yn hysbys pa fath o salwch a oedd yn atal merched rhag gweithio. Byddai copi o'r adroddiad terfynol ar gael i'r Aelodau.
- Byddai cais yn cael ei gyflwyno i'r ymgynghorwyr a oedd yn cynnal yr ymchwil i ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng salwch a'r system budd-daliadau.
- Roedd Partneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn amrywio ledled Cymru. Sefydlwyd rhwydwaith yn ddiweddar ar gyfer cydlynwyr a phobl sy'n ymwneud â'r partneriaethau i gynnig cymorth a rhannu arfer gorau ledled Cymru.
- Ni fu nifer y bobl a wnaeth gais am Gredyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio yn uchel. Roedd y system yn ddryslyd ac yn anodd i gael mynediad iddi. Roedd yn gweithio'n dda i'r rheini a lwyddodd i gael mynediad iddi, ond roedd llawer o deuluoedd nad oeddent yn ymwybodol y gallent fod yn gymwys.
- Roedd Chwarae Teg yn gweithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru ar brosiect ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint i'w helpu i ddatblygu polisïau cyfle cyfartal a recriwtio a chadw staff, ac fel rhan o hynny i gyflwyno patrymau gweithio hyblyg. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhyddhau arian i helpu i ddatblygu'r polisïau hyn.
- Gwnaed rhywfaint o waith ar gyflog ac amodau ar gyfer gweithwyr cartref ond byddai'r cyfle i ymchwilio ymhellach i'r maes hwn yn cael ei groesawu.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i Ruth Marks ac Angela Hooper am gyflwyniad addysgiadol iawn a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at dderbyn canfyddiadau llawn yr ymchwil.

**Eitem 4: Datganiad ar Gymdeithas y Plant**

4.1 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar Gymdeithas y Plant. Atodir copi ohono yn Atodiad B.

4.2 Mewn ymateb i'r datganiad, gwnaed y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

- Cymeradwywyd ymroddiad personol a chyfraniad y staff a gyflogwyd ym mhrosiectau

Cymdeithas y Plant yng Nghymru, yn dilyn cyhoeddiad y Gymdeithas ei bod yn tynnu'n ôl o Gymru.
- Dylid sefydlu protocol i atal sefyllfa debyg rhag digwydd mewn sefydliadau gwirfoddol eraill a ariennir.
- Mynegwyd pryder ynghylch prosiectau yn Esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru yn Nhyddewi ac Aberhonddu ac Abertawe. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cynnydd wrth negodi.

4.3 Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai pob prosiect eiriolaeth o dan arweiniad Cymdeithas y Plant yng Nghymru yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod interim gan y trefniadau a gyhoeddwyd yn ei datganiad.

**Eitem 5: Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol**
**Papur HSS-0701(p.3)**

5.1 Ailddechreuwyd ar y drafodaeth am adroddiad y Prif Swyddog Meddygol, a ohiriwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf.

5.2 Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol gan Dr Hall:

- Cydnabuwyd rôl llywodraeth leol wrth wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Fel rhan o'r adolygiad o iechyd cyhoeddus, roedd trafodaethau ar ddechrau (drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) ar y ddealltwriaeth gorfforaethol o gyfraniad llywodraeth leol ym maes iechyd.
- Roedd mynediad i wybodaeth ac ymchwil dda yn hanfodol er mwyn i bobl broffesiynol ym maes iechyd fod yn eiriolwyr effeithiol ar ran y cyhoedd. Roedd angen mwy o waith ar gyfleu risgiau i'r cyhoedd oherwydd os na chânt eu cynnwys yn ystod cam cynnar daw yn gynyddol anodd sicrhau eu cefnogaeth.
- Nid oedd proffil afiechyd anadlol aciwt a chronig yn gymesur â'r baich a osodwyd ganddo ar y boblogaeth.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd golchi dwylo i bawb, nid pobl broffesiynol ym maes iechyd yn unig. Roedd tystiolaeth glir o'r cysylltiadau rhwng hylendid dwylo gwael a heintiau a drosglwyddir yn yr ysbyty. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau priodol i lanhau dwylo.
- Mynegwyd pryder y gallai'r gostyngiad yn nifer y babanod a oedd yn cael brechiad MMR olygu y byddai'r frech goch yn dychwelyd. Yng Nghymru, canolbwyntiwyd yr ymdrechion ar roi cymorth i bobl broffesiynol ym maes iechyd gan sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i dawelu meddyliau rhieni.
- Roedd darparu llaeth cyflawn i blant bach mewn ysgolion yn briodol.
- Roedd yn anodd deall epidemioleg hunanladdiadau mewn cymunedau gwledig, gan fod nifer yr achosion yn gymharol yn rhy isel i roi darlun ystadegol gadarn o dueddiadau. Gallai'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar effeithiau Clwy'r Traed a'r Genau ar iechyd y meddwl roi cyfle i edrych ar y sail tystiolaeth ehangach.
- Byddai llwyddiant y cynllun yn Lloegr i ddarparu ffrwythau am ddim i blant ysgol yn cael ei

fonitro.

**Eitem 6: Cofnodion y Cyfarfod ar 13 Mawrth 2002**
**Papur HSS-07-02(min)**

6.1 Derbyniwyd y cofnodion.

**Eitem 7: Papurau i’w Nodi Blaen Raglen Waith Fanwl**
**Papur HSS-08-02(p.6)**

7.1 Nododd y Cadeirydd y gallai fod problem gydag amseru Mesur y GIG (Cymru) yn San Steffan, a allai olygu rhywfaint o newidiadau munud olaf i’r rhaglen. Byddai’r Clerc yn hysbysu’r Aelodau yn hyn o beth.

7.2 Cytunodd yr Aelodau i gynnal cyfarfod ychwanegol brynhawn 27 Mehefin. Byddai angen gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes.

**Sgrinio Clyw Newydd-anedig Cyffredinol**

**HSS-08-02(p.3)**

7.3 Dywedodd y Gweinidog na allai roi mwy o wybodaeth ar hyn o bryd ar y rhaglen weithredu.